# Agenda - Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 5 - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 17 Ebrill 2018

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Meriel Singleton**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddSafonau@cynulliad.cymru

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

## 2 Papur(au) i'w nodi

(09.30 - 09.40)

**2.1 Adnoddau ar gyfer craffu ar Brexit: Llythyr gan y Llywydd (16 Mawrth 2018)**

(Tudalennau 1 - 6)

## 3 Lobïo: Trafod yr ymateb i adroddiad y Pwyllgor

(09.40 - 10.00) (Tudalennau 7 - 8)

SoC(5)-07-18 Papur 1 - Ymateb gan Gomisiwn y Cynulliad

## 4 Cod Ymddygiad - Adolygiad: Adroddiad Cynnydd ar Ymchwiliad y Pwyllgor

(10.00 - 11.00) (Tudalennau 9 - 10)

SoC(5)-07-18 Papur 2 - Llythyr gan y Cadeirydd at Brif Weinidog Cymru (7 Mawrth 2018)

SoC(5)-07-18 Papur 3 - Llythyr gan Brif Weinidog Cymru at y Cadeirydd (4 Ebrill 2018)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Elin Jones AC, Llywydd**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Elin Jones AM, Presiding Officer**
National Assembly for Wales

Eitem 3

Jayne Bryant, AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Mawrth 16, 2018

Annwyl Jayne,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 11 Ionawr, ac i chi a'r Pwyllgor, a phawb a gyfrannodd at yr ymchwiliad, am gymryd rhan yn y gwaith o gynhyrchu'r adroddiad interim hwn.
Fel y gofynnwyd, gweler isod ymateb y Comisiwn i argymhellion y Pwyllgor:

**Argymhellion y Pwyllgor Safonau:**

***Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad yn gweithio gyda grŵp o Aelodau'r Cynulliad i ddatblygu cynllun peilot o ddatgelu cyfarfodydd ACau â lobïwyr a grwpiau diddordeb ar sail wirfoddol gan gynnal gwerthusiad yn 2020.***

Derbyn. Er mwyn cefnogi dyhead y Pwyllgor Safonau i gynyddu tryloywder a rhoi gwell dealltwriaeth o waith Aelod etholedig, bydd y Comisiwn yn gweithio gyda'r pedwar aelod o'r Pwyllgor Safonau, fel y grŵp peilot o Aelodau i hwyluso'r treial o'r broses wirfoddol o gyhoeddi manylion cyfarfodydd Aelodau gyda lobïwyr a grwpiau buddiant.

***Argymhelliad 2. Rydym yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad yn sicrhau bod pob pàs diogelwch staff y Cynulliad Cenedlaethol yn cael ei ddiactifadu ar y diwrnod y mae staff yn gadael cyflogaeth. Byddai hyn yn sicrhau nad oes gan unrhyw lobïwr bàs y Cynulliad Cenedlaethol, gan ei gwneud yn haws i gynnal enw da'r Cynulliad fel sefydliad sy'n caniatáu mynediad teg a chyfartal i bawb.***

Derbyn mewn egwyddor. Nid oes angen newid. Yr arfer eisoes yw diactifadu pasys staff ac Aelodau yn brydlon, cyn gynted ag y byddant yn gadael cyflogaeth gyda'r Comisiwn neu Aelod Cynulliad, neu'n rhoi'r gorau i'w rôl fel Aelod. Mae'r arfer hwn yn bwysig iawn er mwyn diogelu uniondeb yr ystâd.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Llywydd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 7403

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Llywydd@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 7403

**Elin Jones AC, Llywydd**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Elin Jones AM, Presiding Officer**
National Assembly for Wales

***Argymhelliad 3. Rydym yn argymell y dylid cynnwys gwybodaeth am bob digwyddiad a noddir gan Aelodau'r Cynulliad a gynhelir ar ystâd y Cynulliad, ac nid dim ond y digwyddiadau mewn mannau cyhoeddus yn y calendr. Teimlwn y bydd hyn yn sicrhau bod y Cynulliad yn dangos ei ymrwymiad i'r tryloywder eithaf, a galluogi'r cyhoedd i weld y digwyddiadau a gynhelir ar yr ystâd.***

Derbyn. Bwriad y calendr y mae'r Cynulliad yn ei gyhoeddi yw bod yn ffynhonnell ddefnyddiol i unrhyw un sy'n defnyddio'r wefan ddarganfod pa weithgaredd sy'n cael ei gynnal.

Bydd y system o gyhoeddi gwybodaeth yn y calendr am bob digwyddiad a noddir gan Aelod a gynhelir ym mannau cyhoeddus Ystâd y Cynulliad (yr Oriel a'r Neuadd yn y Senedd a'r Pierhead) yn cael ei hymestyn ar ôl toriad y Pasg i gynnwys archebion newydd ar gyfer gweithgaredd a noddir gan Aelod sy'n cynnwys gwesteion allanol mewn lleoliadau eraill y gellir eu harchebu ar yr ystâd a chyfarfodydd grwpiau trawsbleidiol.

***Argymhelliad 4. Rydym yn argymell bod gwaith ymchwil yn cael ei gomisiynu gan Gomisiwn y Cynulliad, gan fapio llwybrau dylanwad i greu sylfaen dystiolaeth gytbwys ac ystyried dulliau amgen, a allai fod yn fwy effeithiol, i gynyddu tryloywder, ar wahân i gofrestr statudol.***

Mae pob pwyllgor yn rhydd i geisio'r wybodaeth y mae'n teimlo sy'n angenrheidiol i ymgymryd â'i ymchwiliadau. Mater i'r Pwyllgor yw gwneud hyn.Mae'r Comisiwn yn darparu cyllideb i alluogi pwyllgorau i gael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt, gan staff y Comisiwn a chael mynediad at arbenigedd allanol os oes angen hynny.

Yn gywir,

Elin Jones AC
Llywydd

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Llywydd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 7403

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Llywydd@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 7403

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

**National Assembly for Wales**
Standards of Conduct Committee

Eitem 4

Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC
Y Prif Weinidog
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ

07 Mawrth 2018

**Adolygiad o'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad: Polisi Parch ac Urddas**

Annwyl Brif Weinidog,

Mae'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad wrthi'n ystyried y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad. Mae'r gwaith hwn yn rhan o'r ymrwymiad a wnaed yn y datganiad ar y cyd ar 15 Tachwedd 2017 ar ymdrin ag ymddygiad amhriodol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru. Drwy'r gwaith hwn, codwyd cwestiynau ynglŷn â pha bryd y mae Cod y Gweinidogion a'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad yn berthnasol i Weinidogion y Llywodraeth.

Mae'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi bod Cod y Gweinidogion yn nodi: *(viii) Rhaid i'r Gweinidogion gadw eu rolau fel Gweinidogion a'u rolau fel Aelodau Cynulliad ar wahân*; ymddengys fod canfyddiad bod amwysedd ynghylch pryd y mae Gweinidog yn cyflawni ei ddyletswyddau fel Gweinidog a phryd y mae'n gweithredu fel Aelod Cynulliad. Yn enwedig gan nad yw'r ddwy rôl o reidrwydd yn anghydnaws.

Er mwyn sicrhau eglurder, byddai'r Pwyllgor yn croesawu eich barn ynghylch y posibilrwydd o ddiwygio Cod y Gweinidogion a/neu'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad.

Yn gywir,

Jayne Bryant AC
**Cadeirydd, Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddSafonau@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddSafonau
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddStandards@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddStandards
0300 200 6565

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Carwyn Jones AC/AM**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jayne Bryant AC
Cadeirydd, Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

SeneddSafonau@cynulliad.cymru

4 Ebrill 2018

Annwyl Jayne,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 7 Mawrth ynglŷn ag ystyriaeth y Pwyllgor Safonau Ymddygiad o'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad.

Rwy'n croesawu'r gwaith y mae'r Pwyllgor wedi'i wneud yn y maes pwysig hwn.

Byddwch yn gwybod fy mod i'n rhoi'r pwys mwyaf ar y rhwymedigaethau y mae'r Cod Gweinidogol yn eu gosod arnaf i ac ar aelodau'r Llywodraeth, ac mae'r Cod yn gwbl glir i'r perwyl hwn.

Rwy'n disgwyl y safonau uchaf posibl gan Weinidogion, yn enwedig wrth wahaniaethu rhwng dyletswyddau swyddogol a gwleidyddol. Yn wir, mae Gweinidogion, neu eu Swyddfeydd Preifat, wedi cyfeirio achosion i'm swyddfa innau ar fwy nag un achlysur i gael cyngor ar sut i ymdrin â mater wedi iddynt ddod o hyd i achos posibl o wrthdaro buddiannau.

Yng ngoleuni adolygiad y Pwyllgor, byddaf yn ysgrifennu at y Gweinidogion i'w hatgoffa bod angen gwahaniaethu rhwng rolau.

Os mai gwneud rolau a gweithgareddau Aelodau'r Cynulliad a Gweinidogion yn fwy tryloyw a sicrhau bod modd gwahaniaethu rhyngddynt yn glir yw nod y Pwyllgor, efallai yr hoffech chi atgynhyrchu'r darn perthnasol o'r Cod Gweinidogol yn y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad.

Yn gywir

**CARWYN JONES**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.